Lesley Griffiths AS/MS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd
Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/ Our ref MA/LG/1350/22

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

8 Ebrill 2022

Annwyl Lywydd,

Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) 2022

Yn unol ag adran 11A(4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, rwy'n eich hysbysu bod yr offeryn statudol hwn yn dod i rym ar 9 Ebrill, lai na 21 diwrnod ar ôl iddo gael ei osod. Amgaeir copi o'r offeryn a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef er gwybodaeth ichi.

Diben y Rheoliadau yw gwneud diwygiadau i'r Cynllun Symud Anifeiliaid Anwes, sydd wedi'i gynnwys yn Rheoliad (UE) 576/2013 a ddargedwir i ganiatáu defnyddio prawf gwaed gwrthgyrff amgen i brofi am y gynddaredd mewn anifeiliaid anwes sy'n dod gyda ffoaduriaid o Wcráin. Mae'r prawf amgen hwn yn cymryd llai o amser o lawer na'r un a ragnodir ar hyn o bryd. Bydd y prawf amgen hwn yn galluogi awdurdodau i wneud penderfyniadau ynghylch rheoli risg yn gyflymach o lawer, megis rhyddhau'r anifeiliaid anwes hynny o gwarantîn.

Mae wedi dod yn angenrheidiol peidio â chadw at y confensiwn 21 diwrnod oherwydd y niferoedd uchel o anifeiliaid sy'n cyrraedd mewn cyfnod byr, a fydd yn fuan yn fwy na'r nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael mewn mannau cwarantin.

Bydd defnyddio'r prawf cyflymach yn lleihau'r cyfnod mae angen i anifeiliaid anwes aros mewn cwarantin, a'r baich cyffredinol ar leoedd cwarantin, gan alluogi ffoaduriaid i ddod i mewn i Gymru yn gyflymach, a chael eu hanifeiliaid anwes yn ôl ynghynt, wrth warchod bioddiogelwch Cymru ar yr un pryd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn ymhelaethu ar y manylion technegol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ogystal, bydd y Rheoliadau hyn yn sicrhau cysondeb â newidiadau cyfatebol, a fydd hefyd yn cael eu gwneud ar frys yn Lloegr ac yn yr Alban.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd, Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Lesley Griffiths AS
Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd